**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 812

# Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2002

## RHAN VI —

## Y SAFLE

**Ffitrwydd y safle**

**20.**—(1) Rhaid i'r person cofrestredig beidio â defnyddio safle ar gyfer gwarchod plant neu ddarparu gofal dydd, yn ôl fel y digwydd, oni bai ei fod mewn lleoliad sy'n addas ar gyfer sicrhau'r nodau a'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben, a bod dyluniad a chynllun ffisegol y safle yn addas ar gyfer sicrhau'r nodau a'r amcanion hynny.

(2) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yr holl rannau o'r safle perthnasol sy'n cael eu defnyddio gan blant—

(a) wedi'u goleuo, eu gwresogi a'u hawyru'n ddigonol;

(b) yn ddiogel rhag mynediad diawdurdod;

(c) wedi'u dodrefnu a'u cyfarparu'n addas;

(ch) o adeiladwaith cadarn ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da y tu allan a'r tu mewn;

(d) yn lân ac wedi'u haddurno a'u cynnal a'u cadw'n rhesymol; a

(dd) wedi'u cyfarparu â'r hyn sy'n rhesymol angenrheidiol, ac wedi'u haddasu yn ôl yr angen, i ddiwallu'r anghenion sy'n deillio o anabledd unrhyw blentyn perthnasol.

(3) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod y safle perthnasol yn cael ei gadw'n rhydd rhag arogleuon drwg a gwneud trefniadau addas ar gyfer gwaredu gwastraff cyffredinol a gwastraff clinigol.

(4) Pan fydd gofal yn cael ei ddarparu mewn safle dan do rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod yna ddigon o'r cyfleusterau canlynol ar y safle perthnasol i blant perthnasol eu defnyddio o dan amodau sy'n caniatáu preifatrwydd priodol—

(a) nifer digonol o fasnau ymolchi gyda chyflenwad dwr rhedegog poeth ac oer, a

(b) nifer digonol o doiledau, sy'n addas i blant perthnasol,

ar gyfer nifer a rhyw'r plant perthnasol.

(5) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau, os yw bwyd yn cael ei ddarparu mewn safle dan do, fod cyfleusterau a chyfarpar addas a digonol ar gyfer paratoi, storio a bwyta bwyd ar y safle perthnasol.